Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Rhydywaun

Rhodfa Lawrence
Penywaun
Hirwaun
Rhondda Cynon Taf
CF44 9ES

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Rhydywaun

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Rhydywaun |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | * |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1030 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 914 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 116 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 0.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 17.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yn elwa'n fawr o brofiadau dysgu ysgogol mewn amgylchedd ofalgar lle mae perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn sail i ddysgu effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n ysbrydoledig, gyda gweithgareddau creadigol a holi treiddgar yn datblygu dealltwriaeth ddofn a brwdfrydedd ymhlith disgyblion.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r dull eang a chreadigol o ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae mentrau fel 'Llais Rhydywaun' a 'Dim ond darllen' yn sicrhau bod darpariaeth strategol ac ymarferol yn cefnogi datblygiad medrau llafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn arwain at waith o safon uchel, megis dadansoddi testunau llenyddol yn Gymraeg neu drafodaethau rhesymegol ar bynciau hanesyddol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi llunio trefniadau cryf iawn i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo effeithiol, cynllunio personol a chydweithio ystyrlon â staff a rhieni. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Er bod llawer o gryfderau, mae ychydig o feysydd lle gall yr ysgol fireinio ei dulliau ymhellach. Er enghraifft, er bod gweithgarwch hunanwerthuso yn eang a thrylwyr, nid yw'r camau gweithredu dilynol bob amser yn ddigon penodol. Yn yr un modd, er bod arweinwyr yn cydweithio â'r awdurdod lleol i reoli cyllideb yr ysgol a lleihau'r ddyled ariannol, nid ydynt bob amser yn monitro gwariant yn ddigon strategol.

Mae arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn graidd i lwyddiant yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cynnig cyfeiriad clir a chefnogol, ac mae ganddynt weledigaeth bwrpasol sydd wedi'i gwreiddio'n gadarn yn lles a dyheadau disgyblion. Mae diwylliant o arweinyddiaeth ystyriol yn cyfrannu at awyrgylch hapus lle mae staff a disgyblion yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r safonau gorau posibl. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol, gan ymateb yn gadarnhaol i'r disgwyliadau clir o dan faner 'Ffordd Rhydywaun'.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Miniogi prosesau hunanwerthuso, yn enwedig y camau gweithredu ar gyfer gwella

A2. Cryfhau’r rheolaeth gyllidol, gan gynnwys y defnydd o’r grant datblygu disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau llythrennedd disgyblion, a’r dull ysgol gyfan a’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Trwy gynllunio bwriadus a gosod ffocws clir ar addysgu o ansawdd uchel, mae athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yn llwyddo i gael effaith bositif ar brofiadau dysgu disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn adalw a chymhwyso dysgu blaenorol yn gadarn ac, o ganlyniad, yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas i'w hoed a'u gallu. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a chyflym, gan ymateb yn effeithiol i lefel uchel o her. Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r her neu'r disgwyliadau'n ddigon uchel gan athrawon, mae disgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae adnabyddiaeth dda athrawon o'r disgyblion a pherthnasoedd gwaith cryf yn cyfrannu at awyrgylch ofalgar a chynhaliol. Mae'r athrawon yn annog disgyblion i ymdrechu a gwneud eu gorau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith cadarn sydd yn atgyfnerthu geirfa bynciol yn effeithiol.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn:

- cynllunio'n ofalus gyda strwythur priodol ac amcanion dysgu clir
- trefnu gweithgareddau buddiol sydd yn adeiladu'n rhesymegol er mwyn datblygu medrau disgyblion yn gynyddol
- darparu adnoddau defnyddiol i gefnogi a chynnal diddordeb disgyblion
- cynnig cyfarwyddiadau ac esboniadau clir
- modelu gwaith o ansawdd uchel
- gosod disgwyliadau a lefel her uchel ac yn sicrhau cyflymder addas i wersi
- holi'n briodol er mwyn gwirio dealltwriaeth disgyblion
- cynnig adborth a chefnogaeth gyson a buddiol wrth symud o gwmpas y dosbarth

Mae'r cysondeb yn yr agweddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas o gymharu â'u mannau cychwyn. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth am anghenion disgyblion er mwyn cynllunio'n fwriadus a darparu cwricwlwm addas iddynt. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n effeithiol â'r cynorthwywyr dosbarth i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n effeithiol iawn sydd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a buan. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn angerddol am eu pwnc ac yn ysbrydoli disgyblion. Maent yn hwyluso'r profiadau dysgu'n grefftus, gan feddwl yn ofalus am y math o weithgareddau fydd yn ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn asesu ac ymestyn dealltwriaeth drwy holi treiddgar sydd yn procio disgyblion i feddwl yn ddwys.

Yn yr ychydig wersi lle mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn:

- cynllunio gweithgareddau her isel sydd ddim bob amser yn dilyn ei gilydd yn rhesymegol
- gor-gyfarwyddo'r dysgu sydd yn cyfyngu'r cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn annibynnol
- defnyddio cwestiynau nad ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol

Nid yw'r athrawon hyn bob amser yn addasu cyflymder na strwythur eu gwersi'n briodol i gyd-fynd ag anghenion disgyblion.

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn rhoi adborth defnyddiol sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda ac yn cynnig cyngor clir ar sut i wella ymhellach. Mae gwallau ieithyddol yn cael eu cywiro ac mae disgyblion yn ymateb yn briodol ac yn amserol i sylwadau'r athrawon. Serch hyn, mae gormod o amrywiaeth o ran pa mor ddefnyddiol yw adborth y lleiafrif o athrawon. Nid yw'r arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella yn ddigon clir.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sydd yn eang a chytbwys ar gyfer y cwricwlwm sydd wedi'i seilio'n gadarn ar werthoedd 'Ffordd Rhydywaun' sef lles, uchelgais a'r cyfleoedd gorau i bawb. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau ysgogol i ddisgyblion ddysgu a dyfnhau eu dealltwriaeth o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu'n fuddiol eu dealltwriaeth o hanes a threftadaeth Cymru ac amrywiaeth ethnig wrth astudio dylanwad y diwydiannau lleol yn eu gwersi celf a dyniaethau. Maent hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach, rhywioldeb a bywyd pobl LHDTC+ yn effeithiol.

Mae'r cwricwlwm yn cefnogi'n effeithiol ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth iechyd a lles ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw’r cyfleoedd a’r profiadau cyfoethog ychwanegol sydd ar gael tu hwnt i’r gwersi. Mae gan yr ysgol amrywiaeth o glybiau chwaraeon, dawns a pherfformio yn ogystal â chlwb ‘Merched mewn STEM’ a’r ‘Clwb Perthyn’. Mae’r ysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o deithiau ac ymweliadau addysgol buddiol fel ymweld â Sain Ffagan â theithiau tramor. Mae’r holl brofiadau gwerthfawr hyn yn cyfrannu’n sylweddol tuag at yr agweddau hynod gadarnhaol sydd gan y disgyblion tuag at y staff, yr ysgol a’u cymuned.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 a’r chweched dosbarth sy’n diwallu anghenion bron bob un o’r disgyblion. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi cyflwyno cyrsiau peirianneg, awyr agored a thwristiaeth yn ddiweddar er mwyn ehangu’r dewis. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae carfanau cyfan o ddisgyblion yn astudio cymhwyster nad yw’n addas i bob un ohonynt. Mae’r gefnogaeth, arweiniad a chyfathrebu o ran y broses ddewisiadau yn effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddisgyblion a rhieni.

### Ciplun: Ffordd Rhydywaun

Mae staff yr ysgol yn llwyddo i gynnal lefelau uchel o ymgysylltiad ac agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu gan bron bob un disgybl. Elfen allweddol o’r llwyddiant hwn yw datblygiad y ‘côd ymddygiad’ a’r ‘normau ac arferion’ dan un weledigaeth glir, sef ‘Ffordd Rhydywaun’. Trwy gynnwys yr holl randdeiliaid, mae’r gwerthoedd cytûn yn glir ac yn cael eu perchnogi gan bawb. Gwelir effaith egwyddorion megis parchu’r Gymraeg, parchu eu hunain, parchu ei gilydd, parchu eu dysgu, i greu cymuned lwyddiannus yn holl agweddau  gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn plethu’r ‘normau ac arferion’ i'w gwersi yn effeithiol er mwyn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion arddangos yr egwyddorion yn eu gwaith. Yn gyson, mae disgyblion a staff yn arddel y disgwyliadau hyn yn eu dosbarthiadau a thu hwnt sydd yn cyfrannu’n sylweddol at yr awyrgylch gadarnhaol o gwmpas yr ysgol. Mae ‘Ffordd Rhydywaun’ yn gosod sylfaen gref i staff ysgogi disgyblion ac mae system ganmol yr ysgol wedi’i seilio ar y weledigaeth. Mae’r egwyddorion yn cynnig pwrpas i ddisgyblion anelu’n uchel a chyflawni hyd orau eu gallu.

O ganlyniad i’r ethos cydweithredol, mae bron bob disgybl yn gwrtais a pharchus gydag eraill ac mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn ardderchog yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i wersi, yn ymdawelu’n gyflym ac yn bwrw ati i weithio yn brydlon. Maent yn gwrando’n astud ar eu hathrawon a’u cyfoedion ac yn cydweithio’n gynhyrchiol mewn parau neu grwpiau bychain. Mae llawer yn barod i ymateb ar lafar i gwestiynau ac yn derbyn adborth llafar yn adeiladol.

Mae gan bron bob un disgybl yn y chweched dosbarth agwedd iach a chadarnhaol at ddysgu. Maent yn trafod yn effeithiol ac yn gwrando gyda phwrpas er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae ganddynt lefel uchel o hunangymhelliant wrth weithio'n annibynnol. Maent yn gyfranwyr aeddfed ac allweddol i fywyd yr ysgol.

Mae'r gwaith strategol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gryfder nodedig. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth werthfawr i gefnogi datblygiad medrau llafar a darllen disgyblion trwy raglenni 'Llais Rhydywaun' a 'Dim ond darllen' yn arbennig. Mae'r gwaith cynllunio a chydlynu yn effeithiol dros ben ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gwau'n naturiol trwy'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae effaith glir a chyson ar fedrau llythrennedd disgyblion.

Mae 'Llais Rhydywaun' yn strategaeth effeithiol sy'n datblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn parchu sylwadau eraill. Mae gan lawer o ddisgyblion eirfa gadarn yn y Gymraeg a Saesneg, ac maent yn defnyddio termau pynciol yn briodol. Maent yn cyfrannu'n dda a synhwyrol i drafodaethau pâr neu grŵp ac yn cynnig atebion clir sy'n cynnwys pwyntiau neu ddadleuon dilys. Mae llawer yn gallu egluro ac ategu at eu hymatebion i ymateb i gwestiynau'r athro. Ac eto, mae lleiafrif yn rhy barod i droi i Saesneg mewn trafodaethau pâr neu grŵp ac, ar adegau, mae eu cystrawen ar lafar yn lletchwith.

Mae disgyblion yn elwa o ystod o gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd hyn yn eu paratoi i fod yn ddarllenwyr annibynnol, i fagu dygnwch a dyfalbarhad, a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus a chyfarwydd â darllen ar goedd. Mae llawer yn cywain gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testunau estynedig ac yn dod i gasgliadau rhesymol ar sail y darnau darllen. Yn sgil cyfleoedd celfydd a phwrpasol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn hyfedr. Yn y gwersi Cymraeg, er enghraifft, mae disgyblion yn dadansoddi arddull ac adnabod technegau iaith wrth ddisgrifio cymeriadau llenyddol. Mae gan ychydig o ddisgyblion afael feistrolgar ar ystod eang o dermau pwnc a geirfa soffistigedig wrth drafod a dadansoddi. Maent yn cymharu a chyferbynnu gwybodaeth yn hyderus, gan nodi a phwysleisio'r gwahaniaethau o amryw  destunau cyn dod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraifft, yn y gwersi hanes, mae disgyblion yn trafod a dadansoddi amryw ffynonellau er mwyn dod i gasgliad ynghylch a yw Haig yn haeddu cael ei gofio fel 'cigydd y Somme'.

Wrth ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn dangos dygnwch a dyfalbarhad wrth ysgrifennu'n estynedig. Maent yn trefnu'u gwaith yn synhwyrol ac yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir ac addas. Maent yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o ffurfiau ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn camsillafu'n gyson ac yn gwneud camgymeriadau ieithyddol elfennol ac esgeulus yn y ddwy iaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed sydd â geirfa goeth. Mae rhestrau geirfa a sgaffaldau ysgrifennu yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, mae tueddiad gan ddisgyblion o bob gallu i ddibynnu'n ormodol ar ganllawiau parod eu hathrawon, sy'n cyfyngu ar eu hyder i ysgrifennu'n annibynnol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol tu allan i fathemateg. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd sylfaenol cadarn. Mae ganddynt afael priodol o'r pedair rheol rhif, gwerth lle a sut i amcangyfrif. Mae eu dealltwriaeth o reolau onglau syml a chysyniadau mesur, siâp a gofod yn briodol. Lle bo'n addas, maent yn ymdrin â symbolau yn briodol ac yn defnyddio fformiwlâu syml yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrifo buanedd mewn gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos data mewn tablau yn effeithiol ac yn llunio a dehongli siartiau a graffiau yn gywir, er enghraifft wrth edrych ar ddangosyddion datblygiad mewn daearyddiaeth. Pan gânt y cyfle, maent yn defnyddio a chymhwyso eu medrau'n briodol mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Serch hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau geiriol.

Yn yr un modd, mae ystod addas o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i lawer o ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn effeithiol. Yn eu gwersi cerdd, maent yn arbrofi gyda meddalwedd cyfansoddi wrth greu darnau cerddorol gwreiddiol. Mae cyfleoedd buddiol iddynt hefyd greu a golygu fideos deniadol, er enghraifft i groesawu disgyblion a rhieni newydd yn eu gwersi cyfryngau.

Yn eu gwersi celf, mae disgyblion yn datblygu'n fuddiol eu gwerthfawrogiad o ddulliau artistiaid amrywiol a dylanwad llenyddiaeth ar gelf wrth arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau gwahanol. Mewn drama, mae gwaith disgyblion i gyfuno sgript geiriau gyda chyfres o symudiadau a chreu cynyrchiadau gwreiddiol yn glodwiw. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn fuddiol drwy amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon ffurfiol ac anffurfiol, megis driliau pêl-fasged a sesiynau hyfforddi rygbi.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar feithrin disgyblion caredig, parchus a balch o'u Cymreictod. Mae staff yn coleddu a gwireddu'r ethos hwn yn effeithiol ac yn cynnal amgylchedd cefnogol sy'n annog pob disgybl i wneud eu gorau glas.

Mae gofal am les disgyblion ar draws yr ysgol yn agwedd nodedig. Mae'r staff bugeiliol yn adnabod disgyblion yn dda ac darparu'n bwrpasol ar eu cyfer er mwyn ymateb i anghenion llesiant unigolion. Mae'r 'Hafan' wrth galon yr ysgol ac mae'n cynnig darpariaeth amrywiol ac addas iawn o ymyraethau a chefnogaeth i ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth ac arweiniad sy'n eu cynorthwyo i ymdopi â heriau bywyd bob dydd. Er enghraifft, mae'r clwb gofalwyr ifanc yn lle diogel i ddisgyblion drafod a derbyn cefnogaeth, yn ôl yr angen. Cydweithia'r ysgol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol sy'n cyfrannu'n fuddiol at y gefnogaeth. Er enghraifft, mae cydweithio buddiol a chadarnhaol rhwng yr heddlu lleol, y gwasanaeth ieuenctid a Chyngor ar Bopeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod eu hawliau'n cael eu hystyried a bod cydraddoldeb a thegwch yn gryf yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn rhydd rhag unrhyw fwlio a bod unrhyw achosion yn cael sylw prydlon a'u datrys gan staff.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gryfder nodedig. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn i ddod i adnabod yr anghenion yn gynnar trwy brosesau pontio cryf. Mae'r tîm ADY yn cydweithio â'r ysgolion cynradd partner i gasglu ystod o ddata a gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn cynllunio'n bwrpasol wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae arweinwyr yn dadansoddi data llythrennedd a rhifedd yn ddeallus er mwyn darparu ymyraethau effeithiol. Mae'r tîm ADY yn monitro cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn yn rheolaidd ac yn addasu ymyraethau, yn ôl yr angen. Mae'r cynlluniau datblygu unigol a'r proffiliau un tudalen yn gynhwysfawr a buddiol ac mae crynodebau defnyddiol ac ymarferol ar gael i athrawon adnabod sut i gefnogi disgyblion yn effeithiol. Trefnir ystod fuddiol a chyson o hyfforddiant ymarferol i staff yr ysgol a'r ysgolion cynradd partner ar ddulliau effeithiol o gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r trefniadau pontio i gefnogi lles disgyblion rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd yn effeithiol. Mae mabwysiadu fframwaith ymddygiad cytûn gyda'r ysgolion cynradd partner yn hwyluso'r broses gan alluogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym ac yn hyderus yn eu hamgylchedd newydd. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd a darpariaeth fuddiol i gefnogi disgyblion i wneud penderfyniadau am y cam nesaf yn eu bywydau addysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa o arweiniad gwerthfawr wrth ystyried eu dyfodol.

Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy'r senedd ysgol a'r fforymau disgyblion amrywiol. Mae'r senedd yn chwarae rhan ragweithiol wrth lywio cymuned yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cydweithio â'r cwmni arlwyo i ehangu dewisiadau bwyd iach a gwelliannau yn ansawdd y prydau a ddarperir. Mae'r fforwm iaith yn hynod effeithiol wrth hyrwyddo'r Gymraeg a'i threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Trwy ymgysylltu'n fuddiol â'r gymuned leol, maent yn annog rhieni i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae'r cyngor eco yn ymwneud â hyrwyddo cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol ar draws yr ysgol. Maent wedi rhoi ystod o fentrau ar waith yn llwyddiannus i wella ôl troed ecolegol yr ysgol, gan gynnwys plannu coed a gosod tai adar i gefnogi bywyd gwyllt lleol.

### Ciplun 2: Gwella presenoldeb disgyblion

Mae gwaith yr ysgol i hybu a gwella presenoldeb yn gryfder sylweddol. Mae sawl strategaeth ar waith i sicrhau cynnydd yn y presenoldeb.

Mae'r ysgol yn:

- monitro a thracio presenoldeb yn ofalus a mireinio systemau yn gyson
- cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol
- ymweld â chartrefi i gefnogi disgyblion a theuluoedd
- sefydlu grwpiau ffocws penodol
- trefnu nosweithiau rhannu gwybodaeth defnyddiol i rieni
- cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo presenoldeb ysgol gyfan
- sicrhau bod y cwricwlwm yn ysgogol ac yn addas i anghenion unigolion
- darparu ymyraethau pwrpasol i unigolion
- blaenoriaethu darparu addysg o ansawdd uchel

Mae arweinwyr yn adnabod tueddiadau yn gynnar ac yn cefnogi disgyblion â phresenoldeb isel yn gyson. Mae'r ysgol yn gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd ei gwaith i wella presenoldeb disgyblion, ac yn ei addasu, yn ôl yr angen. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi arwain at welliannau sylweddol.

O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn uwch na'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg. Rhwng y blynyddoedd academaidd 2018-19 a 2022-23, roedd y gostyngiad yng nghyfradd presenoldeb yr ysgol yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd presenoldeb ychydig yn well nag ysgolion tebyg a'r cynnydd mewn blwyddyn yn sylweddol uwch na'r cynnydd yn genedlaethol. Mae'r cyfraddau absenoldebau parhaus yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cadarn o ddiogelu. Mae hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd yn cael ei ddarparu i staff a llywodraethwyr sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o unrhyw bryderon mae staff yn eu nodi, sy'n caniatáu i arweinwyr ddeall anghenion disgyblion a gweithredu'n amserol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol o beth i'w wneud ac at bwy i droi os oes ganddynt bryderon.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn, meddylgar a myfyriol sydd yn myfyrio'n gyson a gofalus ar effaith ei phenderfyniadau. Mae ei gweledigaeth glir o gefnogi lles, hybu uchelgais a darparu cyfleoedd ysgogol trwy addysg cyfrwng Cymraeg wrth galon ei gwaith.

Mae'r uwch dîm arwain yn dîm effeithiol a chydlynol sy'n darparu cefnogaeth werthfawr i'r pennaeth. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio'n strategol i gynnal a gwella gwaith yr ysgol yn barhaus

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi cyfrannu'n sylweddol at wella agweddau allweddol ar waith yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb, medrau llythrennedd disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae hefyd yn cwmpasu nifer o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf, megis y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a hunanwerthuso.

Mae awyrgylch hapus yn yr ysgol ac ymdeimlad cryf o gydweithio pwrpasol ymysg y staff. Yn gyffredinol, maent yn ymrwymo'n llwyr i'r weledigaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwarchod lles staff ac yn gweithio'n effeithiol i sicrhau eu bod yn cael yr amser a'r gefnogaeth i gyflawni eu rolau.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni yn gryfder. Mae staff yn gweithio'n gynhyrchiol i gyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a datblygu perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Er enghraifft, mae nosweithiau rhannu gwybodaeth yn darparu cefnogaeth fuddiol i rieni am fywyd addysgol eu plant.

Mae ffocws clir gan arweinwyr ar leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn gwario'r grant datblygu disgyblion yn addas. Er enghraifft, mae'r grant yn cefnogi staff yr 'Hafan', sydd yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd wedi'u heffeithio gan dlodi. Mae 'Siop Siân' a 'Caffi Siân' yn hybiau cymunedol sy'n darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth gwerthfawr i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r holl waith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyflawniad disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw gwariant y grant bob amser yn ddigon strategol o ran cefnogi disgyblion dan anfantais ac nid yw'r gwerthusiad a'r monitro o'r gwariant yn ddigon manwl.

Mae arweinwyr yn cydweithio â swyddogion o’r awdurdod lleol i reoli a monitro’r gyllideb. Mae diffyg yn y gyllideb ac mae cynllun wedi’i gytuno gyda’r awdurdod lleol i adfer y ddyled.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac mae ganddynt adnabyddiaeth briodol o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Maent yn deall eu rôl o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er eu bod yn cynnig her i’r ysgol ar brydiau, nid ydynt wedi datblygu’r agwedd hon o’u rôl yn llawn ac nid yw’r wybodaeth maent yn ei derbyn bob amser yn eu galluogi i wneud hynny.

Mae gan uwch arweinwyr a llawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth dda o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae systemau a phrosesau cadarn yn helpu arweinwyr i ddeall a chyflawni eu rolau ac yn sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn llyfn. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir, ar y cyfan, ac mae cyfarfodydd yn rhoi sylw dyledus i faterion pwysig megis cynnydd disgyblion a chanfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd. Serch hyn, gall systemau fod ychydig yn gymhleth, ar brydiau, ac nid yw lefel yr her gan reolwyr llinell bob amser yn gyson.

Mae gan yr ysgol galendr clir o weithgareddau i werthuso agweddau o’u gwaith. Mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a chyrchu barn disgyblion a staff. Maent hefyd yn dadansoddi data yn briodol i gynllunio gwelliannau i’r ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae monitro ‘Ffordd Rhydywaun’ yn llinyn aur trwy bob gweithgaredd.

Mae’r ysgol wedi creu adnodd hunanwerthuso defnyddiol, sef y ‘Twndis’, sydd yn ffynhonnell ganolog ar gyfer yr holl dystiolaeth a gesglir. Mae’r ‘Twndis’ yn ddogfen fyw sy’n cael ei diweddaru, yn ôl y galw, ac yn offeryn i adnabod a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella dros amser. Mae arweinwyr yn ffocysu’n fuddiol ar wahanol agweddau penodol o waith yr ysgol, megis ‘Dim ond darllen’, adalw gwybodaeth neu ‘Ddysgu i’r Brîg’ yn eu gweithgareddau hunanwerthuso. Ar sail hyn, maent yn darparu trosolygon defnyddiol ‘Ymlaen Rhydywaun’ sy’n crynhoi cryfderau a meysydd i’w gwella, yn argymell camau gwella defnyddiol ac adnoddau i staff i’w cynorthwyo. Er bod cryfderau yn y prosesau hunanwerthuso, mae’r swmp o wybodaeth sy’n cael ei gasglu yn golygu nad yw’r camau gweithredu sy’n deillio o’r gweithgareddau hyn bob amser yn ddigon miniog. O ganlyniad, nid yw arweinwyr ar bob achlysur yn adnabod yn union yr agweddau mae angen canolbwyntio arnynt.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant ysgol gyfan ac adrannol. Mae'r rhain yn adlewyrchu anghenion yr ysgol a'r gymuned leol, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu yn y cynlluniau gwella ysgol gyfan ac adrannol bob amser yn ddigon miniog a phenodol ac nid yw trefniadau monitro cynnydd yn eu herbyn bob amser yn ddigon clir.

Mae trefniadau adolygu perfformiad yn cynnwys holl staff yr ysgol. Maent yn cysylltu'n briodol â'r cynllun datblygu ysgol ac mae'r system yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu'n broffesiynol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw amcanion arweinwyr yn ddigon strategol.

Ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol lle mae ffocws clir ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a lles. Mae gwefan fewnol benodedig sy'n gartref i ddeunyddiau gwerthfawr ac mae sesiynau 'Clwb Brecwast' a min nos i rannu arfer dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr a darpar arweinwyr ddatblygu eu medrau arwain trwy raglenni hyfforddiant allanol a mewnol. Mae'r ysgol yn gwerthuso'n briodol effaith y rhaglen dysgu proffesiynol ar agweddau megis dysgu ac addysgu a safonau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol o fewn amrywiaeth o bartneriaethau er mwyn ehangu'r arlwy datblygiad proffesiynol. Mae bod yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn cyfrannu'n werthfawr at y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol ac yn cyfoethogi gwaith yr ysgol o ran datblygu addysgeg a medrau arwain staff.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddigon manwl, gan gynnwys defnyddio a monitro effaith y grant datblygu disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r awdurdod lleol i leihau'r ddyled ariannol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  15/05/2025